**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**21ain Mai 2007**

**Derbynebau Tanwydd TAW i'r Diben o Dalu Lwfans Milltiroedd i Aelodau a Swyddogion**

**Adroddiad Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid & Caffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 18fed Rhagfyr 2006, gwnaeth Aelodau gais am bapur ar y mater o dderbynebau TAW i'r diben o dalu lwfansau milltiroedd.

**2.** Mae'r papur yma'n edrych i hysbysu Aelodau o'r materion gweinyddol a materion eraill sydd wedi codi yn ystod blwyddyn gyntaf yr angen am dderbynebau TAW.

**3.** Mae hefyd yn edrych i gyflwyno opsiynau i Aelodau er mwyn iddynt allu cynghori'r Gwasanaeth ar sut i symud ymlaen mewn ystyriaeth â gweinyddu ceisiadau milltiroedd yn y dyfodol.

## Cefndir

**4.** O'r 1af Ebrill 2006, mae'n ofynnol i Aelodau a Swyddogion gyflwyno derbynebau TAW am danwydd i gefnogi eu ceisiadau milltiroedd. Mae hyn er mwyn caniatáu i'r Awdurdod Tân barhau i adennill yr elfen TAW o'r lwfans milltiroedd.

**Cefndir** *(parhad)*

**5.** Roedd nifer o anawsterau wedi codi gan y broses hon:

- Nid oes gan Aelodau sy'n cyflwyno ceisiadau i nifer o awdurdodau ddigon o dderbynebau unigol i gwrdd â'r holl geisiadau. Datryswyd hyn wrth i'r Trysorydd gael yr hawl i ddefnyddio llungopïau o dderbynebau.

- Mae'r Awdurdod yn prosesu 200 o geisiadau teithio y mis ar gyfartaledd, sy'n gallu cymryd hyd at 600 awr (£6,400) y flwyddyn. Fodd bynnag, nid yr amser mae'n gymryd i wirio'r ceisiadau sy'n feichus, ond yr amser mae'n gymryd i ddychwelyd ceisiadau heb dderbynebau. Mae gwirio'r ceisiadau yma'n cynnwys rheolwyr llinell ar bob lefel, ac yn amser y gellir ei ddefnyddio'n well i gyflwyno gwasanaethau rheng flaen.

- Yn aml, mae'n fwy cost effeithiol i weithiwr ddefnyddio eu cerbydau eu hunain i siwrneiau unigol i ddigwyddiad hyfforddi neu ymgyrch 'mannau dwys' na symud cerbydau'r frigâd o gwmpas Gogledd Cymru. Mae Undeb y Brigadau Tân wedi amlygu yn eu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r rheolwyr ei bod hi'n anodd cyflwyno derbynneb TAW gyda'r dyddiad priodol i'r siwrnai pan na fydd y gyrrwr yn gwybod o flaen llaw fod rhaid iddynt ddefnyddio eu cerbyd eu hunain.

**Opsiynau**

**6.** **<u>Opsiwn 1</u>**
**Talu cyfradd milltiroedd is (eithrio TAW) os nad yw'r dderbynneb TAW yn cael ei chyflwyno**

Er yr ymddengys hyn i fod yn ddatrysiad, nid yw'r system gyflogres bresennol yn caniatáu gwneud hyn.

**Opsiynau** *(parhad)*

**Opsiwn 2**

**Dal gwerth yr holl dderbynebau TAW â gesglir a gwneud cais am y swm yna'n unig**

Byddai hyn yn golygu peth weinyddiaeth, ond yn atal yr angen i ddychwelyd a dilyn ceisiadau heb dderbynebau TAW. Byddai yn sicrhau mai'r unig TAW fyddai'n cael ei adennill fyddai'r rhai â gefnogwyd gan dderbynebau.

**Opsiwn 3**

**Peidio ag adennill TAW ar filltiroedd dalwyd i Aelodau a Swyddogion**

Manteision

- Hawddach i Aelodau a Swyddogion gyflwyno ceisiadau.
- Nid yw'r broblem o'r gweithwyr yn defnyddio eu car eu hunain ar fyr rybudd yn bodoli mwyach.
- Arbed amser a'r gost o weinyddu'r system, gweler uchod, y gellir ei ailgyfeirio i waith arall.

Anfantais

Byddai hyn yn costio £6,500 i'r Awdurdod mewn TAW na wneir cais amdano

**Opsiwn 4**

**Parhau fel y presennol**

Mantais

Mae'r Awdurdod yn gallu parhau i adennill TAW ar geisiadau milltiroedd â delir.

Anfantais

Fel a nodir uchod o fewn y cefndir

**Argymhelliad**

**7.** Ar y ddadl o ddadansoddiad cost a budd yn unig, argymhellir Aelodau i gymeradwyo Opsiwn 3.